## Grantiau Ailsefydlu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

23 Ebrill 2018

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

> *Yn ychwanegol at y datgeliad ynghylch grantiau ailsefydlu, faint o arian cyhoeddus a dalwyd i bob AC na chafodd eu hailethol.*

Gweler restr o Aelodau'r Cynulliad na safodd i gael eu hailethol (hynny yw, fe wnaethant sefyll i lawr) ym mis Mai 2016 ar gyfer tymor y Pumed Cynulliad. Mae'r swm a dalwyd i bob AC eisoes wedi'i gyhoeddi ar ein log datgelu.

- Alun Ffred Jones
- Christine Chapman
- Edwina Hart
- Janice Gregory
- Huw Lewis
- Jeff Cuthbert
- Gwenda Thomas
- Rosemary Butler
- Jocelyn Davies
- Rhodri Glyn Thomas
- Sandy Mewies

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.  Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF